Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithio gyda'n gilydd i gadw pobl yn ddiogel

Rheolau ar gyfer beth i'w wneud os ydych chi'n cynnal gweithgareddau neu wasanaethau i blant neu oedolion yng Nghymru

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen: **'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu - Ar gyfer unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru'**.

March 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond mae'n bosib bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Mae'n gallu bod yn anodd deall y geiriau mewn **ysgrifen las drwm**. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth, dyma sut i gysylltu â ni:

Website: llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu

Cafodd y ddogfen hon ei throi'n fersiwn Hawdd ei Ddeall gyda **Photosymbols** gan H**awdd Ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn, cliciwch yma.

Cynnwys

Tudalen

Am y canllaw hwn.....4

Gwneud cynlluniau diogelu.....10

Cael cyngor a chefnogaeth.....21

Geiriau anodd.....24

Am y canllaw hwn



Dyma'r rheolau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith i helpu i gadw pobl yn ddiogel yn ystod gweithgareddau.

Maen nhw ar gyfer unrhyw berson, grŵp neu sefydliad sy'n cynnal **gweithgareddau** i blant ac oedolion.

Mae llawer o wahanol fathau o weithgareddau'n cael eu cynnal yng Nghymru.

Mae gweithgareddau'n bwysig. Maen nhw'n helpu pobl i gadw'n iach, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl eraill.

Ond mae'n rhaid bod cynlluniau ar waith sy'n helpu i gadw pobl yn ddiogel pan fyddan nhw'n gwneud gweithgareddau.

Mae rhaid i bobl a grwpiau sy'n cynnal gweithgareddau feddwl am risgiau.

Mae diogelu yn golygu cadw pobl yn ddiogel rhag:

- **Camdriniaeth**
- **Esgeulustod**
- Niwed

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael. Er enghraifft:

- Brifo rhywun yn gorfforol
- Siarad â rhywun mewn ffordd greulon
- Brifo rhywun yn rhywiol
- Cymryd arian rhywun

Mae llawer o wahanol fathau o **gam-drin**.

Mae **esgeulustod** hefyd yn fath o **gam-drin**. Mae'n golygu peidio â rhoi'r gofal sydd ei angen ar rywun.

Mae angen i bobl sy'n cynnal gweithgareddau gydag oedolion a phlant wybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n meddwl bod rhywun:

- yn cael ei **gam-drin**
- yn cael ei **esgeuluso**
- neu ei niweidio.

Mae angen iddyn nhw wneud yn siŵr bod eu gweithgaredd yn ddiogel i bobl.

Mae rhai sefydliadau'n cael eu gwirio beth bynnag fel rhan o'u gwasanaeth. Mae hyn y cael ei alw'n **arolygiad**. Dylen nhw barhau i ddilyn y rheolau maen nhw'n eu dilyn yn barod.

Bydd rhai gwasanaethau'n cael cymorth gan y rhai sy'n eu hariannu i reoli **diogelu**. Er enghraifft, yr awdurdod lleol.

Pam mae’r cyngor hwn yn bwysig?

- Mae **cam-drin, esgeulustod** a niwed yn gallu cael effaith wael iawn ar bobl.

- Rydych chi’n gallu gwneud gwahaniaeth mawr i’r bobl hyn. Er enghraifft, efallai bod rhywun yn cael ei **gam-drin** gartref, ond chi yw’r unig bobl sy’n gwybod.

- Pe bai rhywun yn cael ei frifo yn ystod gweithgaredd gallai hyn olygu bod y bobl sy’n ei redeg yn mynd i drafferth.



- Mae cynlluniau diogelu yn gallu helpu i gadw pawb yn ddiogel. A gwneud yn siŵr bod gweithgareddau’n cael eu cynnal yn dda.

Os oes cwestiynau gyda chi, e-bostiwch:
safeguardingandadvocacy@gov.wales

Gweithgareddau

Mae llawer o wahanol fathau o weithgareddau'n cael eu cynnal ar gyfer oedolion a phlant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- Clybiau a dosbarthiadau chwaraeon

- Dosbarthiadau dawns

- Clybiau ieuenctid

- Grwpiau gofal plant a chwarae

- Grwpiau crefyddol

Bydd rhai gweithgareddau am ddim. Bydd rhaid i chi dalu am rai. Ond mae rhaid i bob un roi cynlluniau diogelu ar waith.

Mae cadw pobl yn ddiogel yn cael ei alw'n **ddyletswydd gofal**. Mae hyn yn golygu:

- cymryd camau i wneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel pan fyddan nhw'n cymryd rhan yn eich gweithgaredd

- **a** chymryd camau os ydych chi'n meddwl bod nhw'n cael eu **cam-drin**, eu **hesgeuluso** neu eu niweidio yn rhywle arall.

Bydd dilyn y rheolau yn y canllaw hwn yn eich helpu chi i gyflawni eich **dyletswydd gofal**.

Gwneud cynlluniau diogelu

Mae hi'n bwysig gwneud yn siŵr bod pawb sy'n ymwneud â chynnal y gweithgaredd yn deall **diogelu**.

Ar ddiwedd y ddogfen hon, mae manylion am sefydliadau sy'n gallu helpu gyda **diogelu**.

Polisi diogelu

Mae **polisi diogelu** yn rhestr o reolau a chyngor sy'n dweud wrth bobl beth i'w wneud i gadw pobl yn ddiogel.

Bydd e'n esbonio pethau fel:

- Beth sydd angen digwydd i helpu i gadw pobl yn ddiogel.
- Beth i'w wneud pe bai rhywun yn cael ei frifo.

- Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl o gael ei **gamdrin**, ei **esgeuluso** neu ei niweidio yn rhywle arall. Er enghraifft, efallai eich bod chi wedi clywed bod rhywun yn cael ei gamdrin gartref.

Dylai'r polisi diogelu ddweud sut i adrodd rhywbeth rydych chi'n poeni amdano i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r awdurdod lleol.

Hefyd, dylai fe ddweud pryd mae rhaid i chi ffonio'r gwasanaethau brys, fel yr heddlu neu 101.

Os yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal gan grŵp o bobl, mae'n syniad da gwneud rhywun yn gyfrifol am ddiogelu. Maen nhw'n cael eu galw'n **Berson Diogelu Dynodedig (PDD).**

Mae rhaid i'r polisi diogelu gael ei adolygu. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo fe gael ei wirio i wneud yn siŵr fod e'n gyfoes. Mae rhaid i chi bennu dyddiad ar gyfer gwirio eich polisi diogelu bob blwyddyn.

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru** yn ganllaw sy'n helpu pobl i ddeall beth mae angen iddyn nhw ei wneud. Ewch yma am fwy o wybodaeth: www.diogelu.cymru/int/i1/i1.p1.html

Hyfforddiant diogelu

Dylai pawb sy'n ymwneud â chynnal y gweithgaredd gael hyfforddiant am **ddiogelu**.

Bydd hyn yn eu helpu nhw i adnabod arwyddion bod rhywun mewn perygl o gael ei niweidio, ei **gamdrin** neu ei **esgeuluso**.

Mae **rhaid** i'r PDD wneud yr hyfforddiant. Neu'r person sy'n rhedeg y gweithgaredd, os ydyn nhw'n gwneud hynny ar eu pen eu hunain.



Mae gan Gymru reolau gwahanol i Loegr. Felly gwnewch yn siŵr fod unrhyw hyfforddiant ar gyfer Cymru.

Mae hyfforddiant ar gael ar-lein, hefyd. Ewch yma i gael mwy o wybodaeth: https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=781&lang=cy

Rhannu gwybodaeth i gadw pobl yn ddiogel

Mae rheolau ar waith i helpu i gadw gwybodaeth pobl yn ddiogel. Mae hyn oherwydd cyfraith o'r enw **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018**.

Ond ar gyfer diogelu, mae'n bwysig bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r bobl iawn. Ac ar frys.

Mae mwy o wybodaeth am hyn yma: https://llyw.cymru/rhannu-gwybodaeth-i-ddiogelu-pobl-taflen-ffeithiau

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

Dyma wasanaeth sy'n cynnal gwiriadau am staff a gwirfoddolwyr.

Mae'n dangos a oes cofnod troseddol gyda rhywun. Neu os ddylai rhywun ddim gweithio gyda phlant neu oedolion oherwydd rhywbeth maen nhw wedi'i wneud yn y gorffennol.

I gael mwy o wybodaeth am GDG ewch yma: https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

Swydd o ymddiriedaeth

Dyma'r enw cyfreithiol sy'n cael ei roi i rai swyddi lle mae pobl yn gweithio gyda phlant. Er enghraifft, athro neu feddyg.

Mae rhaid i bobl mewn **swydd o ymddiriedaeth beidio** â chael cyswllt rhywiol â phlentyn, hyd yn oed os ydyn nhw dros 16 oed.

Yn fuan, mae'n bosib y bydd y **swydd o ymddiriedaeth** yn cynnwys pobl fel hyfforddwyr chwaraeon neu bobl sy'n cynnal gweithgareddau eraill gyda phlant.

Pryderon am bobl sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru** yn rhoi arweiniad ar beth i'w wneud os ydych chi'n poeni am rywun sy'n gweithio gydag oedolyn neu blentyn sydd mewn perygl.

Er enghraifft, efallai eich bod chi'n meddwl eu bod yn **camdrin** plentyn neu oedolyn.

Gallai hyn gynnwys gofalwyr a gwirfoddolwyr.

Ewch i'r ddolen hon i ddysgu mwy: https://diogelu.cymru/chi/c5/c5.p1.html

Mae rhaid i chi adrodd eich pryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel

Os oes unrhyw un yn ymwneud â phlant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau, mae rhaid iddyn nhw wneud cais am drwydded.

Er enghraifft, teledu, actio, theatr, modelu.

Ewch yma i gael mwy o wybodaeth: https://llyw.cymru/cadw-perfformwyr-ifanc-yn-ddiogel-trwyddedau-perfformio-ar-gyfer-plant

Dyletswydd gofal ac iechyd a diogelwch

Mae rhaid i bobl sy'n cynnal gweithgareddau sicrhau bod y man lle mae'r gweithgaredd yn cael ei redeg yn ddiogel.

Mae llawer o bethau y mae angen eu gwirio. Er enghraifft:

- Sicrhau fod y lloriau ddim yn wlyb ac yn llithrig.

- Sicrhau bod offer trydanol yn ddiogel.

- Os ydych chi'n llogi rhywle, gwirio bod rheolau iechyd a diogelwch ar waith.

- Sicrhau bod pecyn Cymorth Cyntaf ar gael.

- Sicrhau bod rhywun yno wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf.

- Gwybod beth i'w wneud os oes tân.

Efallai y bydd angen i rai gweithgareddau ofyn i bobl roi eu **caniatâd**. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n cytuno â beth sy'n digwydd ac yn gadael i chi wneud hynny.

Mae angen **asesiad risg** ar rai gweithgareddau. Mae hyn yn golygu cynnal gwiriadau ar sut i ddelio â risgiau a allai ddigwydd. Ac ysgrifennu'r cyfan i lawr.

Dylai fod polisi iechyd a diogelwch gyda chi hefyd. Bydd hyn yn dweud beth rydych chi'n mynd i'w wneud i gadw pobl yn ddiogel. A phryd.

Os oes 5 neu fwy o aelodau staff gyda chi sy'n cael eu talu, mae **rhaid** bod polisi iechyd a diogelwch gyda chi.

Mae rhaid i’r staff a’r gwirfoddolwyr wybod a deall beth sydd yn y polisi iechyd a diogelwch.

Mae cyngor am bolisïau iechyd a diogelwch yma: https://wcva.cymru/cy/resources/iechyd-a-diogelwch

Adrodd digwyddiad i’r Comisiwn Elusennau

Mae rhaid i elusennau roi gwybod i’r Comisiwn Elusennau am faterion difrifol.

Mae hyn yn ogystal â sefydliadau eraill fel y Gwasanaethau Cymdeithasol neu’r awdurdod lleol.

Cael cyngor a chefnogaeth

Yng Nghymru mae **Byrddau Diogelu**. Maen nhw'n grwpiau sy'n rhoi cyngor am faterion diogelu.

Dyma fanylion pob Bwrdd Diogelu yng Nghymru:

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg:

Ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.

Ebost: cardiffandvalersb@cardiff.gov.uk

Ffôn: 029 2233 0880 or 029 2233 0883

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg:

Ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf

Ebost: ctmsafeguarding@rctcbc.gov.uk

Ffôn: 01443 490 122

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent :

Ar gyfer Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen

Ebost: Gwentsafeguarding@caerphilly.gov.uk

Ffôn: 01443 86 4373 or 01443 86 4546 or 01443 86 4670

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru:

Ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys

Ebost: cysur@pembrokeshire.gov.uk (plant)

Ebost: CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk (oedolion)

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru:

Ar gyfer Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam

Ebost: regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk

Ffôn: 01824 712 903

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg:

Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

Ebost: wgsb@npt.gov.uk

Ffôn: 01639 763 021

Dyma sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig cyngor a chefnogaeth, gan ddibynnu ar y gweithgaredd rydych chi'n ei gynnal: n:

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Gwefan: https://wcva.cymru/cy/diogelu

Ebost: safeguarding@wcva.cymru

Ffôn: 0300 111 0124

Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon (CPSU) – Hyb Diogelu Chwaraeon Cymru

Ffôn: 029 2033 4975

Yr Eglwys yng Nghymru

Gwefan: www.churchinwales.org.uk/cy/safeguarding

Gwasanaeth Cynghori'r Eglwys Gatholig ar Ddiogelu

Gwefan: www.catholicsafeguarding.org.uk

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)

Ebost: catrin@cwvys.org.uk

Chwarae Cymru

Gwefan: www.chwaraecymru.org.uk/cym/amdanom

Geiriau anodd

Camdrin

Mae camdrin yn golygu bod rhywun wedi trin rhywun yn wael. Er enghraifft:

- Brifo rhywun yn gorfforol
- Siarad â rhywun mewn ffordd greulon
- Brifo rhywun yn rhywiol
- Cymryd arian rhywun

Mae llawer o wahanol fathau o gamdrin.

Esgeulustod

Mae hyn yn fath o gamdrin, hefyd. Mae'n golygu peidio â rhoi'r gofal sydd ei angen ar rywun.